ADRAN 14

14. Rheolau Gweithredol Mynediad ar Wybodaeth

14.1 Cwmpas

Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i holl gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet y Pwyllgor Craffu , y Pwyllgor Safonau, a Phwyllgorau Rheoleiddio.

14.2 Hawliau Ychwanegol i Wybodaeth

Nid yw'r rheolau hyn yn effeithio ar hawliau mwy penodol i wybodaeth a geir mewn rhannau eraill o'r Cyfansoddiad hwn neu yn y gyfraith.

14.3 Hawliau i Fynychu Cyfarfodydd

Caiff aelodau'r cyhoedd gael mynediad i bob cyfarfod yn amodol ar yr eithriadau i'r rheolau hyn yn unig .

14.4 Rhybuddion am Gyfarfodydd

Oni bai y cynullir cyfarfod ar fyr rybudd, bydd y Cyngor yn rhoi o leiaf 5 diwrnod clir o rybudd o unrhyw gyfarfod trwy osod manylion y cyfarfod yn y swyddfa ddynodedig ac ar ei wefan.

14.5 Mynediad at Agenda ac Adroddiadau Cyn y Cyfarfod

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod copïau o'r agenda ac adroddiadau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio yn y swyddfa ddynodedig ac ar ei wefan o leiaf 5 diwrnod clir cyn y cyfarfod. Os ychwanegir eitem at yr agenda yn ddiweddarach, bydd yr agenda ddiwygiedig ar gael i'w harchwilio o'r adeg yr ychwanegwyd yr eitem at yr agenda (pan gaiff adroddiadau eu paratoi ar ôl i'r wŷs gael ei hanfon, bydd y Swyddog dynodedig yn sicrhau bod pob adroddiad o'r fath ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y caiff ei gwblhau a'i anfon at Gynghorwyr).

14.6 Cyflenwi Copïau

Bydd y Cyngor yn cyflenwi copïau o:

14.6.1 unrhyw agenda ac adroddiadau sydd ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd;

14.6.2 unrhyw ddatganiadau pellach neu fanylion sydd eu hangen i esbonio natur yr eitemau ar yr agenda; ac

14.6.3 os yw'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd o'r farn bod hynny'n briodol, copïau o unrhyw ddogfennau eraill a gyflenwyd i Gynghorwyr mewn perthynas ag eitem.

i unrhyw unigolyn naill ai'n electronig neu ar ôl derbyn tâl am bostio ac unrhyw gostau argraffu a dosbarthu eraill.

14.7 Mynediad at Gofnodion ac ati ar ôl y Cyfarfod

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod copïau electronig neu gopïau caled o'r canlynol ar gael am gyfnod o chwe blynedd ar ôl dyddiad cyfarfod:

14.7.1 cofnodion y cyfarfod neu gofnod o'r penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet, ac eithrio unrhyw ran o gofnodion y trafodion pan nad oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd oherwydd bod gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol yn cael ei hystyried;

14.7.2 crynodeb o unrhyw drafodion nad oeddent yn agored i'r cyhoedd, lle na fyddai'r cofnodion sydd ar gael i'w harchwilio yn darparu cofnod rhesymol deg a chydlynol;

14.7.3 yr agenda ar gyfer y cyfarfod; ac

14.7.4 adroddiadau yn ymwneud ag eitemau pan oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.

14.8 Papurau Cefndir

14.8.1 Rhestr o Bapurau Cefndir

Bydd y Swyddog sy'n paratoi'r adroddiad yn cynnwys ym mhob adroddiad restr o'r dogfennau hynny (a elwir yn bapurau cefndir) sy'n ymwneud â phwnc yr adroddiad sydd, yn ei farn ef/ei barn hi:

(a) yn datgelu unrhyw ffeithiau neu faterion y mae'r adroddiad neu ran bwysig o'r adroddiad wedi'i seilio arnynt; ac

(b) y dibynnwyd arnynt i raddau sylweddol wrth baratoi'r adroddiad.

ond nid yw'n cynnwys gwaith cyhoeddedig na dogfennau sy'n datgelu gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol fel y'i diffinnir yn Rheol 14.10.

14.8.2 Archwilio Papurau Cefndir gan y Cyhoedd

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod un copi o bob un o'r dogfennau ar y rhestr o bapurau cefndir ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd am bedair blynedd ar ôl dyddiad y cyfarfod.

14.9 Crynodeb o Hawliau'r Cyhoedd

Bydd crynodeb ysgrifenedig o hawliau'r cyhoedd i fynychu cyfarfodydd ac i archwilio a chopïo dogfennau yn cael ei gadw, ac ar gael i'r cyhoedd, yn Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH.

14.10 Gwahardd y Cyhoedd Rhag Cael Mynediad i Gyfarfodydd

14.10.1 Gwybodaeth Gyfrinachol – Gofyniad i Wahardd y Cyhoedd

Mae'n rhaid gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes sydd i'w drafod, neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu.

14.10.2 Gwybodaeth Eithriedig – Disgresiwn i Wahardd y Cyhoedd

(a) Ceir gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes sydd i'w drafod, neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu.

(b) Pan fydd y cyfarfod yn pennu hawliau neu rwymedigaethau sifil unrhyw unigolyn, neu'n cael effaith andwyol ar ei feddiannau/meddiannau, mae erthygl 6 Deddf Hawliau Dynol 1998 yn sefydlu rhagdybiaeth y bydd y cyfarfod

yn cael ei gynnal yn gyhoeddus, oni bai bod gwrandawiad preifat yn angenrheidiol am un o'r rhesymau a nodwyd yn erthygl 6.

14.10.3 Ystyr Gwybodaeth Gyfrinachol

Mae gwybodaeth gyfrinachol yn golygu gwybodaeth a roddir i'r Cyngor gan Adran o'r Llywodraeth ar delerau sy'n gwahardd ei datgelu'n gyhoeddus neu wybodaeth na ellir ei datgelu'n gyhoeddus trwy Orchymyn Llys.

14.10.4 Ystyr Gwybodaeth Eithriedig

Mae gwybodaeth eithriedig yn golygu gwybodaeth sy'n dod o fewn y saith categori canlynol (yn ddarostyngedig i unrhyw amod):

SYLWER: Nid yw gwybodaeth yn wybodaeth eithriedig os yw'n ymwneud â datblygiad arfaethedig y gallai'r awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd i'w hun ar ei gyfer yn unol â rheoliad 3 Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992.

Rhif	Categori Gwybodaeth Eithriedig	Amod
11	Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw unigolyn.	Mae prawf budd y cyhoedd yn berthnasol (gweler isod).
12	Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.	Mae prawf budd y cyhoedd yn berthnasol (gweler isod).
13	Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno).	Nid yw gwybodaeth sy'n dod o fewn paragraff 13 yn wybodaeth eithriedig yn unol â'r paragraff hwnnw os yw'n ofynnol ei chofrestru o dan: • Ddeddf Cwmnïau 1985; • Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974; • Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1992; • Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 i 1978; • Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986; neu • Ddeddf Elusennau 1993. Mae prawf budd y cyhoedd yn berthnasol (gweler isod).

Rhif	Categori Gwybodaeth Eithriedig	Amod
14	Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw ymgynghoriadau neu drafodaethau, neu ymgynghoriadau neu drafodaethau bwriadedig, mewn perthynas ag unrhyw fater cysylltiadau llafur sy'n codi rhwng yr awdurdod neu un o Weinidogion y Goron a chyflogeion yr awdurdod neu ddeiliaid swydd o dan yr awdurdod.	Mae prawf budd y cyhoedd yn berthnasol (gweler isod).
15	Gwybodaeth y gallai honiad ynghylch braint broffesiynol gyfreithiol gael ei gynnal yn ei chylch mewn achos cyfreithiol.	
16	Gwybodaeth sy'n datgelu bod yr awdurdod yn bwriadu: • rhoi o dan unrhyw ddeddfiad rybudd sy'n gosod gofynion ar unigolyn; neu • wneud gorchymyn neu gyfarwyddyd o dan unrhyw ddeddfiad.	Mae prawf budd y cyhoedd yn berthnasol (gweler isod).
17	Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw gamau a gymerwyd neu sydd i'w cymryd mewn perthynas ag atal trosedd, ymchwilio i drosedd neu erlyn trosedd. Mae prawf budd y cyhoedd yn berthnasol (gweler isod).	Mae prawf budd y cyhoedd yn berthnasol (gweler isod).
18	*(O ran cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau, neu Is-bwyllgor o'r Pwyllgor Safonau, a gynullir i ystyried mater a atgyfeiriwyd o*	

Rhif	Categori Gwybodaeth Eithriedig	Amod
	dan ddarpariaethau adran 70(4) neu (5) neu 71(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000): 18A Gwybodaeth sy'n ddarostyngedig i unrhyw rwymedigaethau cyfrinachedd. 18B Gwybodaeth sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â materion diogelwch cenedlaethol. 18C Trafodaethau Pwyllgor Safonau neu Is-bwyllgor o Bwyllgor Safonau a sefydlwyd o dan ddarpariaethau Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000 wrth ddod i unrhyw gasgliad ar fater a atgyfeiriwyd iddo.	

14.11 Prawf Budd y Cyhoedd

14.11.1 Mae gwybodaeth:

(a) sy'n dod o fewn unrhyw un o'r paragraffau 11 i 14, 16 a 17 uchod; ac

(b) nad yw wedi'i hatal rhag bod yn eithriedig yn unol â'r "amodau cymhwyso" uchod,

yn wybodaeth eithriedig os, a chyn belled, o ran holl amgylchiadau'r achos, yw budd y cyhoedd yn sgil cynnal yr eithriad yn gwrthbwyso budd y cyhoedd yn sgil datgelu'r wybodaeth.

14.11.2 Y man cychwyn yw bod budd cyffredinol i'r cyhoedd yn sgil rhyddhau'r wybodaeth, ac mae'n rhaid i'r awdurdod cyhoeddus benderfynu, mewn unrhyw achos penodol, pa un a fyddai'n gwasanaethu budd y cyhoedd yn well i naill ai ddatgelu neu atal y wybodaeth.

14.11.3 Nid oes diffiniad cyfreithiol o fudd y cyhoedd, ond mae'r canlynol wedi'u nodi fel rhai o'r ystyriaethau perthnasol:

(a) Ceir gwahaniaeth rhwng budd y cyhoedd a'r hyn sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd.

(b) A yw'n gwella dealltwriaeth o drafodaethau cyhoeddus ynglŷn â materion cyfredol a chyfranogiad ynddynt?

(c) A yw'n hyrwyddo hygyrchedd a thryloywder gan awdurdodau cyhoeddus o ran penderfyniadau a wnaed ganddynt neu wrth wario arian cyhoeddus?

(ch) A yw'n caniatáu i unigolion a chwmnïau ddeall penderfyniadau a wnaed gan awdurdodau cyhoeddus sy'n effeithio ar eu bywydau?

(d) A yw'n dadlennu gwybodaeth sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd?

14.12 Gwahardd y Cyhoedd Rhag Cael Mynediad at Adroddiadau

Os yw'r Swyddog Monitro yn ystyried bod hynny'n briodol, caiff y Cyngor wahardd y cyhoedd rhag cael mynediad at adroddiadau sydd, yn ei farn ef/ei barn hi, yn ymwneud ag eitemau pryd, yn unol â Rheol 14.10, y mae'n debygol na fydd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd. Bydd adroddiadau o'r fath yn cael eu marcio â'r geiriau "Nid i'w Gyhoeddi", ynghyd â chategori'r wybodaeth sy'n debygol o gael ei datgelu ac, os yw'n berthnasol, pam yr ystyrir ei bod er budd y cyhoedd i beidio â datgelu'r wybodaeth.

14.13 Y Flaenraglen Waith

14.13.1 Cyfnod y Flaenraglen Waith

Bydd y Flaenraglen Waith yn cael ei pharatoi gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac yn ymdrin â chyfnod o 6 mis. Caiff ei diweddaru ar ddiwedd y cyfnod hwn.

14.13.2 Cynnwys y Flaenraglen Waith

(a) Bydd y Flaenraglen Waith yn cynnwys materion y mae'r Cabinet, y Pwyllgor Craffu a'r Cyngor Llawn yn debygol o'u hystyried. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am:

(i) yr amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb ac unrhyw gynlluniau sy'n rhan o'r Fframwaith Polisi ac sydd angen cymeradwyaeth y Cyngor, a pha gorff sydd i'w hystyried;

(ii) yr amserlen ar gyfer ystyried unrhyw gynlluniau y mae'r Cabinet yn gyfrifol amdanynt];

(iii) unrhyw faterion unigol y mae'r Cabinet yn bwriadu ymgynghori arnynt cyn gwneud penderfyniad, a'r amserlen ar gyfer ymgynghori a gwneud penderfyniad;

(iv) rhaglen waith y Pwyllgor Craffu.

(b) Bydd y Flaenraglen Waith yn cael ei chyhoeddi o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau'r cyfnod yr ymdrinnir ag ef. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cyhoeddi hysbysiad mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal, yn datgan bod y Flaenraglen Waith wedi'i chyhoeddi ac yn rhoi manylion ynglŷn â ble y gellir ei gweld neu gael gafael arni.

14.14 Ymgynghori ar Gynigion i'w Hystyried gan y Cabinet

14.14.1 Dylid caniatáu o leiaf bedair wythnos yn y Rhaglen Waith ar gyfer ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu ac Aelodau'r Adran Etholiadol pan fwriedir i fater gael ei ystyried gan y Cabinet ac nid yw'n fater brys (fel y diffinnir isod) nac yn gyfrinachol nac yn eithriedig (fel y diffinnir ym mharagraff 14.10).

14.14.2 Gellir ystyried bod mater yn frys os oedd y digwyddiadau dan sylw yn annisgwyl ar yr adeg y lluniwyd y Flaenraglen Waith ddiwethaf a bod angen penderfyniad o fewn pedair wythnos.

14.14.3 Gellir ystyried bod penderfyniad yn frys dim ond os yw'r penderfynwr (os yw'n unigolyn) neu Gadeirydd y corff sy'n gwneud y penderfyniad yn cael cytundeb Cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol nad yw'n rhesymol gohirio gwneud y penderfyniad. Os nad oes Cadeirydd gan y Pwyllgor Craffu perthnasol, neu os nad yw Cadeirydd y Pwyllgor Craffu yn gallu gweithredu, yna bydd cytundeb Cadeirydd y Cyngor neu, yn ei (h)absenoldeb ef/hi, yr Is-gadeirydd yn ddigonol. Bydd unrhyw benderfyniadau a wneir o dan y weithdrefn frys hon yn cael eu cofnodi'n rhai a wnaed heb ymgynghori yn y cofnod penderfyniadau.

14.15 Cofnod o Benderfyniadau'r Cabinet

14.15.1 Y Cofnod Penderfyniadau

(a) Bydd cofnod ysgrifenedig yn cael ei wneud o bob Penderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Cabinet a'i Bwyllgorau/Phwyllgorau (os oes rhai) a chan Aelodau unigol o'r Cabinet, a Chyd-bwyllgorau ac Is-gydbwyllgorau y mae eu Haelodau i gyd yn Aelodau o weithrediaeth awdurdod lleol.

(b) Bydd y cofnod penderfyniadau yn cynnwys datganiad, ar gyfer pob penderfyniad, o'r:

(i) penderfyniad a wnaed;

(ii) y dyddiad y gwnaed y penderfyniad;

(iii) y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;

(iv) unrhyw fuddiant personol a ddatganwyd;

(v) unrhyw ganiatâd i siarad a roddwyd gan Bwyllgor Safonau'r Awdurdod;

(vi) unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn gwneud y penderfyniad.

14.15.2 Paratoi'r Cofnod Penderfyniadau

(a) Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd ef/hi yn mynychu unrhyw gyfarfod o'r Cabinet, un o Bwyllgorau'r Cabinet neu Gyd-bwyllgor neu Is-gydbwyllgor lle y mae ei holl Aelodau yn Aelodau o weithrediaeth awdurdod lleol, a bydd yn llunio cofnod penderfyniadau cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl y cyfarfod.

(b) Pan fydd Aelod unigol o'r Cabinet wedi gwneud Penderfyniad Gweithredol:

(i) bydd yr Aelod hwnnw/honno, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, yn cyfarwyddo'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i lunio cofnod penderfyniadau; ac

(ii) ni fydd y penderfyniad yn cael ei weithredu hyd nes y bydd y cofnod penderfyniadau hwnnw wedi'i lunio, yn amodol ar baragraff (c) isod.

(c) Pan fydd y dyddiad y mae'n rhaid i Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan Aelod unigol o'r Cabinet gael ei weithredu erbyn yn golygu bod cydymffurfio â 14.15.2(b) uchod yn anymarferol, gellir gweithredu'r penderfyniad os yw'r penderfynwr wedi cael cytundeb:

(i) Cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol; neu

(ii) os nad oes unigolyn o'r fath neu os nad yw'r unigolyn hwnnw/honno'n gallu gweithredu, y Cadeirydd; neu

(iii) os nad oes unrhyw un o'r uchod, yna'r Is-gadeirydd,

bod angen gwneud y penderfyniad ar frys ac nad yw'n rhesymol ei ohirio. Ni fydd y weithdrefn galw i mewn yn Adran 7.25 yn berthnasol yn yr amgylchiadau yma.

14.16 Penderfyniadau gan Aelodau Unigol o'r Cabinet

14.16.1 Rhaid Ystyried Adroddiadau

Pan fydd Aelod unigol o'r Cabinet yn bwriadu gwneud unrhyw benderfyniad, ni fydd ef/hi yn gwneud y penderfyniad hyd nes y bydd wedi ystyried cynnwys adroddiad Swyddog.

14.16.2 Darparu Copïau o Adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu

Ar ôl rhoi adroddiad o'r fath i benderfynwr unigol, bydd yr unigolyn a baratôdd yr adroddiad yn rhoi copi ohono i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ac yn sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd ar yr un pryd.

14.16.3 Cofnod o Benderfyniad Unigol

Bydd y rheolau ynghylch cofnodi penderfyniadau ym mharagraff 14.15 yn berthnasol.

14.17 Mynediad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ac Aelodau at Ddogfennau

14.17.1 Hawliau Mynediad

Yn amodol ar baragraff 14.17.2 isod, bydd gan Bwyllgorau Craffu yr hawl i weld unrhyw ddogfen sydd ym meddiant neu reolaeth y Cabinet neu ei Bwyllgorau/Phwyllgorau ac sy'n cynnwys deunydd yn ymwneud ag:

(a) unrhyw fusnes a drafodwyd mewn cyfarfod o'r Cabinet neu ei Bwyllgorau/Phwyllgorau; neu

(b) unrhyw benderfyniad a wnaed gan Aelod unigol o'r Cabinet.

14.17.2 Cyfyngiad ar Hawliau

Ni fydd gan Bwyllgorau Craffu yr hawl i weld unrhyw ran o ddogfen sy'n cynnwys:

(a) gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig; neu

(b) gyngor a roddwyd gan ymgynghorydd neu gynorthwy-ydd gwleidyddol,

oni bai bod y wybodaeth honno'n berthnasol i gam gweithredu neu benderfyniad sy'n destun adolygu neu graffu neu unrhyw adolygiad sy'n rhan o raglen waith y Pwyllgorau.

14.18 Hawliau Mynediad Ychwanegol i Aelodau Pwyllgorau Craffu

14.18.1 Hawliau Mynediad

Bydd gan bob Aelod yr hawl (ac eithrio pan fydd gan Aelod fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater) i archwilio unrhyw ddogfen sydd ym meddiant neu dan reolaeth y Cabinet neu ei Bwyllgorau/Phwyllgorau ac sy'n cynnwys deunydd yn ymwneud ag unrhyw fusnes a drafodwyd mewn cyfarfod o un o gyrff gwneud penderfyniadau'r Cyngor neu gan Aelod unigol o'r Cabinet.

14.18.2 Cyfyngiad ar Hawliau

Ni fydd hawl gan Aelod i weld unrhyw ran o ddogfen:

(a) pe byddai'n datgelu gwybodaeth eithriedig sy'n dod o fewn paragraffau 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972; neu

(b) pe byddai'n datgelu cyngor ymgynghorydd neu gynorthwy-ydd gwleidyddol.

14.18.3 Natur Hawliau

Mae'r hawliau hyn yn ychwanegol at unrhyw hawliau eraill a allai fod gan Aelod.